

Sut i Adeiladu Ffon Law o Diwbiau Cardfwrdd

Bydd angen...

- Rhywun i'ch helpu chi – pwysig iawn!
- Rholyn tŷ bach neu rolyn cegin. Neu yn well fyth, rholyn cardfwrdd trwchus o rolyn cling ffilm neu ffoil alwminiwm.
- Reis sych, cerrig mân neu unrhyw beth bach a chaled y galli di ei roi yn dy diwb i wneud sŵn glaw.
- Bag plastig neu bapur
- Siswrn
- Bandiau elastig neu selotep

Cam Un:

Addurno dy rolyn cardfwrdd! Defnyddia baent, pensiliau, gliter, glud, unrhyw beth hoffi di! Gofala nad wyt ti'n gwneud tyllau yn y cardfwrdd, ond os wyt ti'n gwneud hynny galli di gau'r twll gyda darn bach o selotep.

Cam Dau:

Gofynnwch I rywun eich helpu chi I dorri dau gylch eithaf mawr o'ch bag gan ddefnyddio'r siswrn.

Pwysig: does dim ots am dorri cylchoedd perffaith! Yna defnyddia fand elastig i gau cylch dros un pen i'r tiwb. Fel arall, galli di ddefnyddio selotep i'w lynu.

Cam Tri:

Arllwys reis, cerrig neu beth bynnag arall hoffi di i mewn i dy diwb. Does dim rhaid i ti ddefnyddio un peth yn unig, ac os galli di roi gwahanol bethau yn y tiwb, fe wnaiff wahanol synau pan fyddi di wedi gorffen. Tria beidio â llenwi'r tiwb yn ormodol neu wnaiff e ddim llawer o sŵn!

Cam Pedwar:

Defnyddia'r cylch mawr arall a dorraist ti o dy fag plastig neu bapur i orchuddio'r pen arall.

Defnyddia fand elastig neu selotêp i'w gau. Dyna ni dy ffon law! Galli di wneud gwahanol synau wrth ei throï ar ei phen i lawr a gadael i beth sydd y tu mewn syrthio i'r gwaelod. Neu galli di ysgwyd y ffon law fel tambwrîn. Meddylia beth arall galli di wneud!

Beth am drïo chwarae ynghyd â'r caneuon Cymraeg am law a anfonom ni?

Opsiwn cyflym

Am rywbeth haws (neu os nad oes gen ti diwbiau cardfwrdd), defnyddia botel ddŵr blastig yn lle hynny. Gallet ti hefyd drïo rhoi reis neu gerrig mewn blwch bychan iawn (paced rhywbeth o siop efallai) a'i gau gyda selotep i wneud dy ysgwydwy dy hun!